**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

At: Prif Swyddogion Cynllunio

1 Mawrth 2022

Annwyl Brif Swyddogion Cynllunio

Mae paragraffau 3.58 a 3.59 Polisi Cynllunio Cymru (PC) yn amlinellu polisi cenedlaethol tuag at ddiogelu tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMW) Cymru.

Mae Cymru'r Dyfodol, Cynllun Cenedlaethol 2040, yn nodi tir amaethyddol BMV fel adnodd naturiol cenedlaethol o dan Bolisi 9.

Ceir canllawiau pellach yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6, gan gynnwys y trefniadau ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad B*; a, Chanllawiau Ymarfer: Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel.

Yn benodol, mae PCC yn nodi:-

> '…..ym mholisïau'r cynllun datblygu a'r penderfyniadau rheoli datblygu, dylid rhoi **cryn bwys** ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, **onid oes** angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad, ac os nad oes tir a ddefnyddiwyd o'r blaen neu dir o raddau amaethyddol is ar gael, neu os oes gan y tir o radd amaethyddol is werth amgylcheddol a gydnabyddir drwy ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol, a bod hynny'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol.

Diben y llythyr hwn yw egluro, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a amlinellir uchod, lle nodir tir BMV o fewn datblygiad arfaethedig aráe paneli solar ffotofoltaig, y dylid rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag cael ei ddatblygu. Gwnaed hyn oherwydd ei bwysigrwydd arbennig, ac oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall bydd angen gwrthod rhoi caniatâd. Rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i fonitro cynigion yn agos a fyddai'n golygu colli tir BMV.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPA) ymgynghori â Llywodraeth Cymru cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw gynigion nad ydynt yn cyd-fynd â'r Cynllun Datblygu ac a fyddai'n golygu colli 20 hectar neu fwy o dir BMV (yn barhaol a dros dro). Mae hyn yn cynnwys colledion sy'n llai nag 20 hectar ond sy'n debygol o arwain at golledion pellach sy'n cyfateb yn gronnol i 20 hectar neu fwy (Mae Erthygl 14 (1) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012/801 yn gosod y gofyniad hwn).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er nad yw'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar geisiadau cynllunio nad ydynt yn 'sbarduno' y gofyniad statudol fel y nodir yn Atodiad B, paragraff B2, gall unrhyw golled o dir BMV fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Ar gyfer ceisiadau cynllunio nad ydynt yn 'sbarduno' y gofyniad statudol, fel y nodir yn Atodiad B, paragraff B2, caiff Llywodraeth Cymru gymryd y cam cyntaf wrth wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio fel y nodir o dan Atodiad B, paragraff B5.

Os daw ceisiadau aráe paneli solar ffotofoltaig ar dir amaethyddol BMV gerbron yr Adran Newid Hinsawdd, bydd yr Adran yn gwrthwynebu colled o dir amaethyddol BMV oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill yn drech na'r angen i ddiogelu tir o'r fath yn unol â pholisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellir uchod.

Wrth ystyried y dilyniant chwilio ac ym mholisïau'r cynllun datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu, mae'n bwysig cael gafael ar wybodaeth gywir am ansawdd tir. Mae Map 2 Rhagweld Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) (fersiwn 2, 2019) sydd ar gael yn rhwydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi lleoliadau tir BMV. Mae rhagor o ganllawiau ar ei ddefnydd a'r angen am arolygon ALC ar gael yma - Categorïau Tir Amaethyddol: cyngor ar y map rhagweld | LLYW.CYMRU.

Mae arolygon ALC yn gymhleth ac mae'r adroddiadau yn dechnegol eu natur ac felly mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwasanaeth dilysu adroddiad ALC am ddim. Byddem yn annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i'w ddefnyddio. Gellir e-bostio pob ymgynghoriad at y Gwasanaeth Cynghori ar Ansawdd Tir: LQAS@llyw.cymru

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

* TAN6 Atodiad B Cyfeirnod - Dirymwyd Erthygl 10 o GDPO 1995 gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012/801 a'i disodli gan erthygl 14(1) o'r Gorchymyn hwn. Mae'r Gwasanaeth Cyngor ar Ansawdd Tir bellach yn cymryd lle cyfeiriadau at SEED.